# EUR(2) 03-04(p03)w

# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 25 Mawrth 2004 |
| Amser: | 09:00 |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd |
| Teitl: | Gwybodaeth am gysylltiadau a threfniadau gefeillio rhwng Cymru a gwledydd eraill |

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gysylltiadau a threfniadau gefeillio rhwng Cymru a gwledydd eraill.

## Gweithredu

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys y papur.

## Cefndir

3. Yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a Thramor ar 26 Chwefror trafodwyd gwerth cysylltiadau a threfniadau gefeillio gyda gwledydd eraill. Cytunwyd y byddai Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgora'r Aelodau yn edrych ar pa wybodaeth a allai fod ar gael i aelodau ar gysylltiadau a threfniadau gefeillio eraill yng Nghymru. Mae'r wybodaeth honno i'w chael isod.

## Biwro Rhyngwladol Llywodraeth Leol

4. Mae'r Biwro Rhyngwladol Llywodraeth Leol (LGIB) yn gweithredu fel cyswllt rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r Biwro Rhyngwladol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ar gyfer awdurdodau lleol, gan roi'r newyddion diweddaraf iddynt ar faterion Ewropeaidd a Rhyngwladol a'u cynorthwyo yn eu cysylltiadau a'u partneriaethau rhyngwladol.

5. Mae gwefan y sefydliad yn cynnwys cronfa ddata sy'n rhestru trefniadau gefeillio rhwng trefi yng

Nghymru a thramor. Gall y gronfa ddata chwilio am bethau hefyd. Bydd y rhestr yn cael ei diweddaru ar 30 Ebrill. Cyfeiriad y wefan yw www.lgib.gov.uk/.

## Cysylltiadau Addysgol O Fewn Yr UE

### Rhaglen SOCRATES

6. Rhaglen SOCRATES yw prif raglen addysgol Ewrop sy'n cynnwys oddeutu 30 o wledydd yr UE. Cafodd ei sefydlu i hybu iaith, addysgu ac annog symudedd a bod yn arloesol. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle hefyd i bawb dderbyn addysg, ac i gael cymwysterau a sgiliau cydnabyddedig.

7. Mae SOCRATES yn targedu pob agwedd o addysgu a phob gallu, o addysg feithrin i'r brifysgol gan gynnwys llwybrau addysgol mwy anffurfiol. Mae'n bosibl i'r sefydliadau addysgol sy'n rhan o'r rhaglen fod yn agored i syniadau ac arferion newydd e.e. adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau mewn gwledydd eraill. Mae'r rhaglen yn cynnwys cynlluniau amrywiol gan gynnwys COMENIUS (Addysg Ysgol) ac ERASMUS (Addysg Uwch).

8. Mae COMENIUS yn annog cydweithredu rhwng ysgolion a datblygu staff, yn ogystal â hybu pobl i ddysgu ieithoedd a hybu ymwybyddiaeth rhyng-ddiwylliannol.

9. Cafodd ERASMUS ei gynllunio i gefnogi gweithgareddau addysg uwch ac i gefnogi'r system o gyfnewid myfyrwyr a staff dysgu.

Leonardo da Vinci

10. Mae rhaglen Leonardo da Vinci yr UE yn annog cydweithrediad rhwng sefydliadau sy'n cynnig hyfforddiant galwedigaethol, gan geisio gwella safon yr hyfforddiant a datblygu sgiliau a symudedd y gweithlu.

11. Mae gwybodaeth fanwl am gael ar gyfraniad sefydliadau addysgol unigol yng Nghymru. Mae'r wybodaeth ar ffurf taenlenni manwl sydd i'w darllen yn electronig, a ddarparwyd gan Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel. Mae'r data'n cynnwys:

- Ysgolion yng Nghymru sy'n cymryd rhan yng nghynllun COMENIUS (2002-2003)
- Sefydliadau yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn ERASMUS (1991-2002) - y nifer o fyfyrwyr ac athrawon sy'n ymuno ac yn gadael, o gymharu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Dadansoddiad o fyfyrwyr yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn ERASMUS yn ôl pwnc addysgol (gan gynnwys dadansoddiad o oedran a rhyw) ac fel cyfran o gyfanswm y DU
- Colegau a phrifysgolion yng Nghymru sy'n cymryd rhan yng nghynllun Leonardo (2000-2003)

12. Dylai'r Aelodau gysylltu â Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgorau'r Aelodau os hoffent gopïau electronig o'r data.

Diwrnod o Wanwyn yn Ewrop

13. Menter yw Diwrnod o Wanwyn yn Ewrop i hybu addysgu am yr Undeb Ewropeaidd ac Aelod Wladwriaethau yr UE mewn ysgolion, ac i hybu trafodaeth. Mae'r gweithgareddau yn caniatáu ysgolion i gydweithio fel partneriaid ac i ddisgyblion gysylltu â'u gilydd a thrafod eu safbwyntiau. O'r 92 o ysgolion yn y DU sydd wedi cofrestru ar gyfer y fenter hyd yma, mae tair ohonynt yng Nghymru: Ysgol Gyfun Pencoed, Ysgol Gynradd Ffair-fach, Llandeilo, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn, Llansawel.

### Cysylltiadau Addysgol Rhyngwladol

Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol

14. Mae'r Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol yn ymwybodol o fentrau gan bartneriaid ledled Cymru. Enghreifftiau o sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn gwaith gyda phartneriaid yw Global Connections yn Sir Benfro, a Dolen Cymru, sy'n sefydlu cysylltiadau rhwng ysgolion yng Nghymru a Lesotho. Mae rhestr ar gael o dros 60 o ysgolion yng Nghymru sydd wedi eu cysylltu gyda ysgolion yn Lesotho. Mae Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru yn cynhyrchu cylchlythyr hefyd ar ffurf e-bost o'r enw 'Llais Europe'', sy'n cynnwys newyddion am brosiectau partneriaeth ac sy'n hysbysebu ar gyfer partneriaid.

## Cyngor Prydeinig Cymru

15. Mae Cyngor Prydeinig Cymru yn agor y drws i rwydwaith o swyddfeydd y Cyngor Prydeinig dramor mewn 110 o wledydd, ac mae'n gweithio i sefydlu partneriaethau rhyngwladol sy'n tynnu ar gryfderau Cymru ym myd addysg, y celfyddydau, llywodraethu, gwybodaeth, ieithoedd a gwyddoniaeth. Bydd y Pwyllgor yn cael cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Gwlad Cyngor Prydeinig Cymru yn ei gyfarfod 25 Mawrth 2004.

## Argymhelliad

16. Bod y Pwyllgor yn nodi'r papur ac yn cysylltu â Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgorau'r Aelodau yn uniongyrchol am gopïau o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn y cynnwys.

Cyswllt

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau